Marie Curie
CYMRU

Marw mewn Tlodi yng Nghymru 2026

Tachwedd 2026



Cyflwyniad

Yn 2021 comisiynodd Marie Curie y Ganolfan Polisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Loughborough i archwilio nifer y bobl sy'n marw mewn tlodi yn y Deyrnas Unedig (DU) bob blwyddyn. Arweiniodd hyn at gyhoeddi adroddiad pwysig gan Marie Curie, sef Marw mewn Tlodi, a gyhoeddwyd yn 2022 ac sy'n defnyddio data o 2019. Yn 2024 a 2025 cyhoeddwyd dadansoddiad pellach oedd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys manylion ar gyfer tlodi tanwydd ar ddiwedd oes.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad diweddaraf.[1]

Negeseuon allweddol

- Yng Nghymru, ers 2023 mae 17,800 o bobl wedi marw mewn tlodi ac mae 24,400 o bobl wedi marw mewn tlodi tanwydd.
- Yn 2025, roedd 5,400 o bobl mewn tlodi ar ddiwedd eu hoes. Mae hyn yn cyfateb i 15% o'r holl rai a fu farw.
- Cymru sydd â'r cyfraddau uchaf o dlodi ymhlith pobl o oedran gweithio yn ystod y 12 mis olaf o fywyd, sef 31%.
- Roedd 14% o bobl oedran pensiwn mewn tlodi yn 12 mis olaf eu hoes.
- Mae bod ym mlwyddyn olaf eu hoes yn cynyddu'r risg o brofi tlodi ar gyfer pobl o oedran gweithio ac oedran pensiwn, er bod y risg yn llawer mwy dwys ar gyfer y rhai o oedran gweithio. Mae cyfraddau tlodi ar gyfer pobl o oedran gweithio yng Nghymru yn ystod 12 mis olaf eu hoes yn cynyddu ar gyfartaledd o 6 phwynt canran o'u cymharu â'r rhai nad ydyn nhw ar ddiwedd eu hoes.
- Ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, roedd o leiaf chwarter y bobl o oedran gweithio yn ystod 12 mis olaf eu bywyd mewn tlodi.
- Roedd cyfraddau tlodi ar ddiwedd oes ar ei uchaf ym Mlaenau Gwent, Caerdydd a Merthyr Tudful – mae'r tri ymhlith yr 20 awdurdod lleol yn y DU gyda'r cyfraddau uchaf o dlodi ar ddiwedd oes ar gyfer pobl o oedran gweithio.
- Yn 2025, fe wnaeth 8,800 o bobl brofi tlodi tanwydd yn 12 mis olaf eu hoes, sy'n cyfateb i 25% o'r holl farwolaethau a gofnodwyd.
- Roedd 28% o bobl o oedran gweithio a 26% o bobl oedran pensiwn mewn tlodi tanwydd ar ddiwedd eu hoes. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers 2024, pan oedd cyfraddau tlodi tanwydd yn 23% ar gyfer y ddau grŵp.
- Ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, roedd o leiaf chwarter y bobl o oedran gweithio yn ystod 12 mis olaf eu bywyd mewn tlodi tanwydd.
- Gwelwyd y cyfraddau uchaf o dlodi tanwydd ar ddiwedd oes, ar gyfer pobl o oedran gweithio ac oedran pensiwn, ym Mlaenau Gwent, Sir Ddinbych a Merthyr Tudful.



Argymhellion

1. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

2. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cymorth ariannol ychwanegol i bobl sy'n byw gyda salwch terfynol i helpu gyda chostau ynni.

3. Dylai Llywodraeth y DU gyflwyno tariff cymdeithasol ar gyfer ynni, neu gymorth cyfatebol uniongyrchol ar gyfer biliau. Dylai gynnig gostyngiad o o leiaf 50% ar filiau a bod ar gael i bobl sydd â salwch terfynol.

4. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfeirio pobl sy'n byw gyda salwch terfynol a'u gofalwyr at gyngor am fudd-daliadau lles yn rheolaidd ac yn effeithiol.

5. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i sicrhau bod hyfforddiant ar y Rheolau Arbennig ar gyfer Diwedd Oes a ffurflenni SR1 yn cael ei ymgorffori mewn safonau addysgol perthnasol, gofynion cwricwlwm a chymwyseddau.

6. Rhaid i arweinwyr iechyd a chyfarwyddwyr clinigol ar draws byrddau iechyd, hosbisau ac mewn gofal sylfaenol ymgorffori profion ariannol – gan gynnwys i weld pwy sy'n gymwys ar gyfer Rheolau Arbennig – mewn prosesau clinigol.

Diffiniadau

Yn y dadansoddiad hwn defnyddir y diffiniadau canlynol.

Tlodi

Mae'r adroddiad yn defnyddio diffiniad y *Social Metrics Commission* o dlodi. Mae'r Comisiwn yn diffinio tlodi fel yr incwm sy'n weddill ar ôl tynnu allan y "costau anochel" sef er enghraifft costau tai, gofal plant a chostau sy'n ymwneud ag anabledd.

Mae rhai cyfyngiadau i'r diffiniad hwn o hyd. Fodd bynnag, dyma'r diffiniad mwyaf cynhwysfawr sydd ar gael ar hyn o bryd. Dyma ddiffiniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n ystyried costau ychwanegol anabledd a salwch yn ogystal â sefyllfa ariannol unigolyn, ac felly eu risg o brofi tlodi.

Amddifadedd Materol

Diffinnir amddifadedd materol fel sefyllfa lle mae unigolyn yn brin o bedwar eitem neu weithgaredd hanfodol neu fwy (ar gyfer plant a phensiynwyr), neu bump neu fwy (ar gyfer oedolion o oedran gweithio), o restr benodol, oherwydd cyfyngiadau ariannol. Mae'r eitemau'n cynnwys gallu talu biliau heb orfod torri'n ôl ar bethau hanfodol, cadw'r cartref yn ddigon cynnes, bwyta tri phryd y dydd, a chael ychydig o arian yn weddill i chi'ch hun.


Safon Isafswm Incwm

Mae'r Safon Isafswm Incwm (MIS) yn rhoi awgrym o gost wythnosol cyrraedd isafswm safon byw cymdeithasol dderbyniol, fel y cytunir arno gan aelodau'r cyhoedd ar sail basged o nwyddau a gwasanaethau. Mae'r nwyddau a'r gwasanaethau hyn, sy'n cael eu diweddaru'n flynyddol, yn anelu nid yn unig at ddiwallu anghenion materol sylfaenol, ond hefyd i roi'r cyfleoedd a'r dewisiadau sydd eu hangen ar bobl i gymryd rhan mewn cymdeithas.

Tlodi Tanwydd

Mae'r diffiniad o dlodi tanwydd a ddefnyddir yn seiliedig ar yr hyn a ddefnyddir yn yr Alban, sy'n ystyried gwariant ar ynni ac incwm ar ôl i gostau ynni gael eu talu.

Mae'r diffiniad a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn yn wahanol i'r diffiniad technegol a ddefnyddir yn yr Alban mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'n ystyried yr holl ddefnydd o ynni, nid costau gwresogi yn unig, sy'n rhoi darlun mwy cyflawn o sefyllfa unigolyn – rhywbeth sy'n arbennig o bwysig wrth adlewyrchu'r gwariant ar ddyfeisiau meddygol sy'n cael eu pweru gan y prif gyflenwad trydan. Yn ail, mae'n ystyried gwariant gwirioneddol, yn hytrach na defnyddio model i weld beth yw'r costau ar gyfer cyrraedd tymheredd penodol. **Mae hynny'n golygu nad yw'r mesur hwn o dlodi tanwydd yn nodi pobl a ddylai fod yn gwario mwy na hyn, ond sy'n gwneud hebddo** – naill ai trwy beidio â throi'r gwres ymlaen neu'n 'hunan-ddatgysylltu' trwy beidio â rhoi mwy o arian yn eu mesurydd. Felly, mae'r ffigurau yn yr adran hon yn dangos y terfynau isaf ar gyfer nifer y bobl sy'n marw mewn tlodi tanwydd.



Newidiadau i ddata ffynhonnell yn 2026

Mae'r amcangyfrifon o nifer y bobl sy'n marw mewn tlodi yn cael eu graddnodi yn unol â chyfraddau tlodi cenedlaethol, gan ddefnyddio diffiniad y ***Social Metrics Commission*** o dlodi. Mae'r ystadegau hyn yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio data o "Arolwg Adnoddau Teuluol" (*Family Resources Survey*) Llywodraeth y DU, sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i gynhyrchu cyfraddau tlodi swyddogol ar gyfer y DU.

Yn 2024/25, mae DWP wedi defnyddio methodoleg newydd i gyfrifo incwm aelwydydd yn yr arolwg. Yn ogystal â gwybodaeth a gasglwyd yn uniongyrchol gan aelwydydd yn ystod yr arolwg, ychwanegwyd data gweinyddol am y budd-daliadau a dderbynnir gan yr aelwydydd hyn. Mae hyn wedi'i gynllunio i gywiro'r tan-adrodd y gwyddys amdano am dderbyn budd-daliadau yn yr arolwg. Gan fod yr addasiad hwn yn effeithio'n bennaf ar aelwydydd sydd ag incwm isel, mae hyn yn golygu bod cyfraddau tlodi cyffredinol wedi eu diwygio i fod yn is. Er bod gwelliannau i'r data i'w croesawu, mae hefyd yn golygu bod monitro newid dros amser yn dod yn fwy heriol.

Felly, rydym yn cynghori bod yn ofalus wrth ddehongli ystadegau eleni ar dlodi diwedd oes drwy eu cymharu â blynyddoedd blaenorol.

O ganlyniad, nid yw cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer tlodi ar ddiwedd oes yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn.

Nid yw'r newid hwn yn effeithio ar ffigurau tlodi tanwydd; felly, cyflwynir cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer y ffigurau hyn.

Tlodi ar ddiwedd oes yng Nghymru

Yng Nghymru, fe wnaeth 15% o'r rhai a fu farw yn 2025 farw mewn tlodi. Roedd cyfanswm o 5,400 o bobl mewn tlodi yn 12 mis olaf eu hoes.

Ers 2023, mae 17,800 o bobl yng Nghymru wedi marw mewn tlodi.

Tabl un: Nifer a chyfran y bobl fu farw mewn tlodi yng Nghymru 2025

	Ym mlwyddyn olaf eu hoes		Ddim ym mlwyddyn olaf eu hoes	
	n	%	n	%
Oedran gweithio	1,400	31%	446,100	25%
Oedran pensiwn	4,000	14%	80,100	12%

Mae bod yn mlwyddyn olaf oes yn cynyddu'r risg o brofi tlodi ar gyfer pobl o oedran gweithio ac oedran pensiwn, er bod y risg yn llawer mwy dwys ar gyfer y rhai o oedran gweithio. Mae cyfraddau tlodi ar gyfer pobl o oedran gweithio yng Nghymru yn ystod 12 mis olaf eu hoes yn cynyddu ar gyfartaledd o 6 phwynt canran o'u cymharu â'r rhai nad ydyn nhw ar ddiwedd eu hoes. O ran pensiynwyr, mae cyfraddau tlodi yn cynyddu 2% ar gyfartaledd i'r rhai sydd ar ddiwedd eu hoes.

Cymru sydd â'r gyfran uchaf o bobl o oedran gweithio sy'n profi tlodi ym mlwyddyn olaf eu hoes o hyd, sef 31%.

Tabl dau: Cyfran y bobl sy'n marw mewn tlodi yng ngwledydd y DU 2025

	Oedran gweithio		Oedran pensiwn	
Gwlad	Yn 12 mis olaf eu hoes	Ddim yn 12 mis olaf eu hoes	Yn 12 mis olaf eu hoes	Ddim yn 12 mis olaf eu hoes
Lloegr	26%	21%	13%	11%
Cymru	31%	25%	14%	12%
Yr Alban	25%	20%	13%	11%
Gogledd Iwerddon	25%	21%	16%	13%

Tlodi ar ddiwedd oes ledled Cymru


Mae'r darlun ar draws Cymru yn gymysg. Blaenau Gwent, Caerdydd a Merthyr Tudful oedd â'r cyfraddau uchaf o dlodi ar ddiwedd oes. Mae'r tri awdurdod lleol yma hefyd ymhlith yr 20 awdurdod lleol yn y DU gyda'r cyfraddau uchaf o dlodi ymhlith pobl o oedran gweithio yn ystod 12 mis olaf eu bywyd.

Tabl tri: Cyfran y bobl sy'n marw mewn tlodi fesul awdurdod lleol 2025

Awdurdod lleol	Canran y bobl o oedran gweithio mewn tlodi ym mlwyddyn olaf eu hoes	Canran y bobl o oedran pensiwn mewn tlodi ym mlwyddyn olaf eu hoes
Blaenau Gwent	35%	17%
Pen-y-bont ar Ogwr	30%	14%
Caerffili	31%	15%
Caerdydd	34%	17%
Sir Gaerfyrddin	29%	13%
Ceredigion	27%	12%
Conwy	28%	13%
Sir Ddinbych	30%	14%
Sir y Fflint	28%	13%
Gwynedd	29%	14%
Ynys Môn	29%	13%
Merthyr Tudful	33%	16%
Sir Fynwy	25%	11%
Castell-nedd Port Talbot	32%	16%
Casnewydd	33%	16%
Sir Benfro	29%	13%
Powys	27%	12%
Rhondda Cynon Taf	32%	15%
Abertawe	33%	16%
Torfaen	31%	15%
Bro Morgannwg	28%	13%
Wrecsam	31%	15%

Ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, roedd o leiaf chwarter y bobl o oedran gweithio yn ystod 12 mis olaf bywyd mewn tlodi.

Ffigur un: Canran y bobl sy'n marw a oedd mewn tlodi fesul awdurdod lleol (oedran gweithio)



Mesurau amgen o dlodi

Mae amddifadedd materol a'r Safon Isafswm Incwm (MIS) yn anelu, yn fras, at asesu a yw unigolion ac aelwydydd yn gallu mwynhau safon byw dderbyniol. Tra bod amddifadedd materol yn canolbwyntio ar ddiffyg eitemau neu weithgareddau penodol oherwydd cyfyngiadau ariannol, mae MIS yn diffinio'r 'fasged' o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl i gael safon byw sy'n dderbyniol yn gymdeithasol, a faint y byddai angen iddynt ei wario i gyrraedd y trothwy hwn. Felly, mae'r ddau ddangosydd yn cynnig diffiniad mwy ansoddol o ansicrwydd ariannol na'r llinell dlodi.

Ar draws yr holl fesurau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, Cymru sydd â'r cyfraddau uchaf o dlodi ymhlith pobl o oedran gweithio ar ddiwedd eu hoes, o'i chymharu â gwledydd eraill y DU.

Amddifadedd materol

Yng Nghymru yn 2025, profodd 5,400 o bobl amddifadedd materol ym mlwyddyn olaf eu bywyd. Cymru oedd â'r gyfradd uchaf o amddifadedd materol ymhlith pobl o oedran gweithio ar ddiwedd eu hoes.

Tabl pedwar: Nifer a chyfran y bobl sy'n marw mewn amddifadedd materol fesul gwlad yn y DU 2025

	Oedran gweithio		Oedran pensiwn	
Gwlad	**n**	**%**	**n**	**%**
Lloegr	15,200	26%	68,300	16%
Cymru	1,100	27%	4,300	16%
Yr Alban	1,300	23%	4,000	14%
Gogledd Iwerddon	700	20%	1,700	12%

Safon isafswm incwm

Yng Nghymru yn 2025, roedd gan 11,500 o bobl incwm aelwyd is na'r safon isafswm incwm yn ystod 12 mis olaf eu hoes. Yng Nghymru y gwelwyd y gyfran uchaf o bobl o oedran gweithio yn 12 mis olaf eu bywydau oedd ag incwm aelwyd is na'r safon isafswm incwm.

Tabl pump: Nifer a chyfran y bobl ag incwm aelwyd is na'r Safon Isafswm Incwm yn eu blwyddyn olaf o fywyd yn ôl gwlad yn y DU 2025

	Oedran gweithio		Oedran pensiwn	
Gwlad	**n**	**%**	**n**	**%**
Lloegr	31,500	44%	125,900	23%
Cymru	2,400	47%	9,100	29%
Yr Alban	4,000	40%	13,300	26%
Gogledd Iwerddon	1,200	45%	5,000	33%



Tlodi tanwydd ar ddiwedd oes yng Nghymru

Yn 2025 yng Nghymru, profodd 8,800 o bobl dlodi tanwydd yn 12 mis olaf eu hoes, sy'n cyfateb i chwarter yr holl farwolaethau a gofnodwyd.

Roedd 28% o bobl oedran gweithio a 26% o bobl oedran pensiwn ym mlwyddyn olaf bywyd mewn tlodi tanwydd.

Ers 2023, mae 24,400 o bobl yng Nghymru wedi marw mewn tlodi tanwydd.

Tabl chwech: Cyfran y bobl mewn tlodi tanwydd fesul gwlad yn y DU 2025

	Oedran gweithio		Oedran pensiwn	
Gwlad	**Yn 12 mis olaf eu hoes**	**Ddim yn 12 mis olaf eu hoes**	**Yn 12 mis olaf eu hoes**	**Ddim yn 12 mis olaf eu hoes**
Lloegr	26%	19%	22%	18%
Cymru	28%	20%	26%	21%
Yr Alban	25%	18%	23%	18%
Gogledd Iwerddon	29%	21%	30%	24%

Tlodi tanwydd ar ddiwedd oes ledled Cymru

Gwelwyd y cyfraddau uchaf o dlodi tanwydd ar ddiwedd oes, ar gyfer pobl o oedran gweithio ac oedran pensiwn, ym Mlaenau Gwent, Sir Ddinbych a Merthyr Tudful.


Tabl saith: Cyfran y bobl a fu farw mewn tlodi tanwydd fesul awdurdod lleol 2025

Awdurdod lleol	Canran y bobl o oedran gweithio mewn tlodi tanwydd ym mlwyddyn olaf eu hoes	Canran y bobl o oedran pensiwn mewn tlodi tanwydd ym mlwyddyn olaf eu hoes
Blaenau Gwent	31%	27%
Pen-y-bont ar Ogwr	27%	23%
Caerffili	28%	24%
Caerdydd	28%	24%
Sir Gaerfyrddin	27%	23%
Ceredigion	27%	23%
Conwy	28%	24%
Sir Ddinbych	29%	25%

Awdurdod lleol	Canran y bobl o oedran gweithio mewn tlodi tanwydd ym mlwyddyn olaf eu hoes	Canran y bobl o oedran pensiwn mewn tlodi tanwydd ym mlwyddyn olaf eu hoes
Sir y Fflint	25%	21%
Gwynedd	27%	24%
Ynys Môn	28%	24%
Merthyr Tudful	29%	26%
Sir Fynwy	25%	21%
Castell-nedd Port Talbot	28%	24%
Casnewydd	28%	24%
Sir Benfro	28%	24%
Powys	27%	23%
Rhondda Cynon Taf	27%	23%
Abertawe	28%	25%
Torfaen	28%	25%
Bro Morgannwg	25%	21%
Wrecsam	28%	24%

Ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, roedd o leiaf chwarter y bobl o oedran gweithio yn ystod 12 mis olaf bywyd mewn tlodi tanwydd.

Ffigur dau: Canran y bobl a fu farw a oedd mewn tlodi tanwydd fesul awdurdod lleol (oedran gweithio)




Mae tlodi tanwydd ar gynnydd


Mae tlodi tanwydd ymhlith pobl ym mlwyddyn olaf eu bywyd wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chynnydd sylweddol rhwng 2024 a 2025.

Ers 2024, mae tlodi tanwydd ymhlith pobl o oedran gweithio ym mlwyddyn olaf eu bywyd wedi cynyddu bum pwynt canran, ac i bobl oedran pensiwn o dri phwynt canran.


Graff un: Cynnydd mewn tlodi tanwydd ar ddiwedd oes 2024 i 2025



Graff dau: Cyfran y bobl o oedran gweithio yn marw mewn tlodi tanwydd dros amser



Graff tri: Cyfran y bobl o oedran pensiwn yn marw mewn tlodi tanwydd dros amser



Pwy sydd mewn tlodi ar ddiwedd eu hoes?

Oherwydd cyfyngiadau data, dydy hi ddim wedi bod yn bosibl pennu sut mae anghydraddoldeb ar sail nodweddion gwarchodedig yn effeithio ar y risg o farw mewn tlodi neu dlodi tanwydd yn benodol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae data ar lefel y DU yn tynnu sylw at faterion sy'n debygol o fod yn wir yng Nghymru.

Tlodi ac anghydraddoldeb

Gan adlewyrchu'r ffaith bod y risg o fod mewn tlodi yn gyffredinol yn uwch yn ystod oedran gweithio nag ar ôl ymddeol, mae'r risg o fod mewn tlodi ar ddiwedd oes yn gostwng gydag oedran, gyda'r risg uchaf ymhlith y rhai sy'n iau na 45 oed.

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod mewn tlodi ar ddiwedd eu hoes, o ran oedran gweithio ac oedran pensiwn.

Mae'r risg o dlodi yn uwch i'r rhai o grwpiau ethnig lleiafrifol nag i'r rhai o gefndir ethnig Gwyn, hyd yn oed ymhlith y rhai nad oes ganddynt salwch terfynol; fodd bynnag, mae'r risg hon yn uwch fyth i'r rhai sydd ar ddiwedd eu hoes, yn enwedig i bobl o grwpiau ethnig Du. Roedd 23% o bobl Wyn o oedran gweithio ym mlwyddyn olaf bywyd mewn tlodi yn 2025, o'u cymharu â 41% o bobl Asiaidd o oedran gweithio a 43% o bobl Dduon o oedran gweithio yn 12 mis olaf eu bywyd.

Mae gan bobl sydd â chanser risg is o dlodi ar ddiwedd eu hoes o'u cymharu â'r rhai sydd â chyflyrau eraill; mae 17% o'r rhai sydd â chanser yn byw mewn tlodi, o'u cymharu â 21% o'r rhai sydd â chyflyrau eraill.

Tlodi tanwydd ac anghydraddoleb

Mae pensiynwyr benywaidd yn parhau i fod mewn mwy o berygl o dlodi tanwydd na phensiynwyr gwrywaidd, waeth beth yw eu statws o ran marwolaeth.

Mae cyfraddau tlodi tanwydd yn parhau i fod yn llawer uwch, ar y cyfan, ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol nag yn y boblogaeth Wen, ac mae'r anghydraddoldeb hwn yn parhau ar ddiwedd oes. Roedd 19% o bobl Wyn ym mlwyddyn olaf eu bywyd mewn tlodi tanwydd, o'u cymharu â 25% o bobl o ethnigrwydd lleiafrifol ym mlwyddyn olaf eu bywyd.

Dangosodd adroddiadau blaenorol gyfradd tlodi tanwydd is i'r rhai sydd â chanser o'u cymharu â chyflyrau eraill. Fodd bynnag, yn y dadansoddiad presennol, mae cyfraddau tlodi tanwydd wedi cynyddu ar gyfer y ddau grŵp, ac roedd tua 23% o bobl naill ai â chanser neu gyflwr arall mewn tlodi tanwydd yn 12 mis olaf eu bywydau.

Cymorth ariannol ar ddiwedd oes

Mae'r system nawdd cymdeithasol yn ffynhonnell hanfodol o gymorth ariannol i bobl sy'n byw gyda salwch terfynol.

Ledled y DU, mae budd-daliadau yn cynrychioli tua dwy ran o dair (67%) o incwm pensiynwyr yn ystod 12 mis olaf eu hoes, gyda'r mwyafrif (64%) yn dod o Bensiwn y Wladwriaeth.

Mae oedolion o oedran gweithio ym mlwyddyn olaf bywyd yn cael 48% o'u hincwm o fudd-daliadau gwladol, o'i gymharu â dim ond 18% ar gyfer y rhai nad ydyn nhw ar ddiwedd eu hoes. Daw incwm budd-daliadau yn bennaf o Gredyd Cynhwysol, gyda budd-daliadau anabledd ond yn cynrychioli 5% o incwm cyfartalog y cartref ar gyfer y rhai yn 12 mis olaf bywyd sydd o oedran gweithio. O fewn y system nawdd cymdeithasol, mae'r Rheolau Arbennig ar gyfer Diwedd Oes yn galluogi pobl sydd â salwch terfynol i gael gafael cyflym ar gymorth nawdd cymdeithasol drwy broses symlach.

Er gwaethaf hyn, mae ymchwil yn dangos **nad yw un o bob tri o bobl sydd â chyflwr cronig yng Nghymru a Lloegr yn hawlio'r budd-daliadau hynny, nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd, y mae ganddyn nhw hawl i'w cael cyn iddynt farw.**[2]

Casgliad

Mae pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn wynebu risg uwch o dlodi a thlodi tanwydd. Mae gan Gymru broblem benodol gyda thlodi ar ddiwedd oes ymhlith pobl o oedran gweithio – ar draws yr holl fesurau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, mae gan Gymru'r cyfraddau uchaf o dlodi ymhlith pobl o oedran gweithio ar ddiwedd eu hoes, o'i chymharu ag unrhyw wlad arall yn y DU.

Mae tlodi tanwydd ar ddiwedd oes yn gwaethygu, gan gynyddu pum pwynt canran i'r rhai o oedran gweithio a thri phwynt canran i'r rhai o oedran pensiwn. Gan fod disgwyl i filiau ynni godi ymhellach, mae'n hanfodol gwneud mwy i amddiffyn pobl sy'n byw gyda salwch terfynol rhag tlodi tanwydd ac ansicrwydd ariannol.

Heb weithredu, bydd miloedd o bobl yn methu â gwneud y gorau o'r amser sydd ganddynt ar ôl oherwydd eu bod yn poeni am filiau cynyddol a sut i gael dau ben llinyn ynghyd. Rhaid i lunwyr polisi, darparwyr gwasanaethau a gwasanaethau gofal iechyd ganolbwyntio ar y caledi ariannol sy'n wynebu pobl sy'n byw gyda salwch terfynol a'r rhai sy'n agos atyn nhw.

Er nad yw'r holl ddulliau o fynd i'r afael â thlodi ar gael i Lywodraeth Cymru, fe all, ac mae'n rhaid iddi, gymryd camau i gefnogi pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn well yn ogystal â lleihau'r nifer sy'n marw mewn tlodi.

Mae ein hargymhellion wedi aros yr un fath i raddau helaeth ers adroddiadau Marw mewn Tlodi blaenorol. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r pwerau sydd ganddi i roi mwy o arian ym mhocedi pobl, i'w diogelu rhag costau cynyddol, ac i sicrhau bod y cymorth sydd eisoes yn bodoli yn cyrraedd y bobl sydd ei angen.

Argymhellion

Treth y Cyngor

I lawer o aelwydydd, treth y cyngor yw'r gost sefydlog fwyaf ar ôl cost tai. Roedd y dreth gyngor ar gyfer Band D yn £2,024 y flwyddyn (£169 y mis) yng Nghymru ar gyfartaledd yn 2024-25[3]. Mae llunio rheoliadau cenedlaethol newydd ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cynnig cyfle i sicrhau bod pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn gymwys i gael gostyngiad yn y Dreth Gyngor ble bynnag y maen nhw'n byw yng Nghymru.

Argymhelliad 1: Cynnwys pobl sy'n byw gyda salwch terfynol o fewn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Costau ynni

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau cyfyngedig i fynd i'r afael â mater costau ynni. Mae camau gweithredu i wella effeithlonrwydd ynni o fewn y cartref yn cael ei weithredu drwy gynllun Nyth (*Nest*) ac rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r tariff cymdeithasol. Fodd bynnag, yn y tymor byr i'r tymor canolig, gallai Llywodraeth Cymru leihau tlodi tanwydd ymhlith pobl sy'n byw gyda salwch terfynol drwy daliadau cymorth uniongyrchol.

Argymhelliad 2: Cyflwyno cymorth ariannol ychwanegol i bobl sy'n byw gyda salwch terfynol i helpu gyda chostau ynni.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth y DU gyflwyno tariff cymdeithasol ar gyfer ynni, neu gymorth cyfatebol uniongyrchol ar gyfer biliau. Dylai gynnig gostyngiad o o leiaf 50% ar filiau a bod ar gael i bobl sydd â salwch terfynol.

Mynediad at fudd-daliadau

Mae gormod o bobl nad ydyn nhw'n hawlio'r budd-daliadau y mae ganddyn nhw hawl iddynt. Mae cael mynediad at gyngor ac arweiniad yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn manteisio ar bob cymorth ariannol y mae ganddyn nhw hawl iddo. Bydd pobl sy'n byw gyda salwch terfynol, a'r rhai sy'n agos atyn nhw, yn dod i gysylltiad ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn mewn sefyllfa cwbl allweddol i gyfeirio pobl at y cymorth ariannol sydd ar gael.

Argymhelliad 4: Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfeirio pobl sy'n byw gyda salwch terfynol a'u gofalwyr at gyngor am fudd-daliadau lles yn rheolaidd ac yn effeithiol.

Mae'r Rheolau Arbennig ar Ddiwedd Oes yn cynnig llwybr cyflym pwysig i gael budd-daliadau yn dilyn diagnosis o gyflwr terfynol, ond mae gormod o bobl yn dal ddim yn cymryd y cymorth ariannol, nad yw'n dibynnu ar brawf modd, y mae ganddyn nhw hawl iddo.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i sicrhau bod hyfforddiant ar y Rheolau Arbennig ar gyfer Diwedd Oes a ffurflenni SR1 yn cael ei ymgorffori mewn safonau addysgol perthnasol, gofynion cwricwlwm a chymwyseddau.

Argymhelliad 6: Rhaid i arweinwyr iechyd a chyfarwyddwyr clinigol ar draws byrddau iechyd, hosbisau ac mewn gofal sylfaenol ymgorffori profion ariannol – gan gynnwys ar gyfer bod yn gymwys ar gyfer Rheolau Arbennig – mewn prosesau clinigol.

Cyfeiriadau

1. J. Stone a E. Robinson (2026) *Poverty at the end of life in the UK in 2025*
2. Marie Curie (2026) *Improving terminally ill people's access to Special Rules*
3. Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru "Lefelau Treth y Cyngor: Ebrill 2024 i Fawrth 2025"

Natasha Davies

Uwch Reolwr Polisi, Cymru

natasha.davies2@mariecurie.org.uk

Tachwedd 2026

Marie Curie yw prif elusen diwedd oes y DU. Pwy bynnag ydych chi, beth bynnag fo'ch salwch, rydym gyda chi tan y diwedd.

Rhif cofrestredig yr elusen 207994 (Cymru a Lloegr), SC038731 (Yr Alban) Q392c

Marie Curie CYMRU